COFNODION O GYFARFOD PWYLLGOR AMCANION CYFFREDINOL A CHYNLLUNIO CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD YN YR YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE COLWYN, NOS FAWRTH, 5ED CHWEFROR 2019 AM 6.30 P.M.

YN BRESENNOL: Cynghorydd C. Brockley (Is-Gadeirydd) yn y Gadair
Cynghorwyr B. Barton, N. Bastow (Dirprwy Faer), G. Campbell, Mrs M. Jones, C. Matthews, J. Pearson (Warden Coed), M. Tasker, S. Williams (Maer), M. Worth,

SWYDDOGION: Mrs C. Earley, Clerc y Dref a Mrs R. Dudley, Clerc Cynorthwyol

HEFYD YN BRESENNOL: Mr James Harland, Rheolwr Cynllunio a Chymunedau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC);
Cynghorydd Chris Hughes a'r Cynghorydd Paul Richards.

336/18 <u>Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:</u>

Gyda'r Is-Gadeirydd, y Cynghorydd C. Brockley yn y Gadair, cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cadeirydd , y Cynghorydd Mrs Glenys Baker.

337/18 <u>Cyfranogaeth Gyhoeddus:</u>

Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, fe ganiateir i'r cyhoedd siarad ar unrhyw eitem ar yr agenda. Defnyddiodd y Cynghorwyr Tref Chris Hughes a Paul Richards y sesiwn cyfranogaeth gyhoeddus hwn i roi sylwadau ar Gais Cynllunio O/45845 o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15fed Ionawr 2019. Ni chyflwynwyd unrhyw wrthwynebiad i'r cais gan y Pwyllgor, ond fe hysbyswyd y Pwyllgor gan y Cynghorwyr bod fwy o wybodaeth wedi dod i law am y cais, a ddadlwythwyd i 'Planning Explorer', yn mynegi pryderon am y posibilrwydd o lifogydd a materion yn ymwneud a mynediad ar Groes Road. Cytunodd y Pwyllgor i edrych ar y cais unwaith eto, gan ystyried y wybodaeth newydd; gweler Cofnod 347/18(a).
Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorwyr Hughes a Richards, a gadawsant y cyfarfod.

338/18 <u>Datgan Cysylltiadau:</u>

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol a / neu rai sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

339/18 <u>Cofnodion</u>:

Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 15fed Ionawr 2019 i fod yn gywir.

340/18 Materion Yn Codi O'r Cofnodion Blaenorol:

a) **Cofnod 291/18(e) – Cysgodfa Bws Ffordd Hesketh:**

Hysbyswyd y Pwyllgor gan y Clerc bod amcan bris am gysgodfa bws newydd wedi cael ei anfon at y cwmni yswiriant erbyn hyn ac fe ddisgwylir am ateb.

b) **Cofnod 318/18(b) – Ymgynghoriad ar y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ag SPG:**

Croesawyd James Harland, Rheolwr Cynllunio a Chymunedau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i'r cyfarfod gan y Cadeirydd er mwyn iddo allu ateb cwestiynau gan yr aelodau am y cynlluniau yn nogfennau ymgynghori'r CDLl. Cadarnhaodd James fod cais y Cyngor Tref am estyniad amser i ymateb i'r ymgynghoriad wedi cael ei ganiatáu. Aeth ymlaen i egluro'r pwysedd ar amserlen adolygiad presennol y CDLl sydd i gyrraedd y cam adnau erbyn Ionawr 2020, neu fel arall, gall y Gweinidog ymyrryd. O ganlyniad i ymchwil am y safleoedd datblygu posibl, mae dros 300 o safleoedd newydd yn cael eu hawgrymu. Bydd y rhain a phob safle presennol na chawsant eu datblygu hyd yn hyn, yn cael eu hadolygu yn erbyn meini prawf a gytunwyd.

Mae'r ymgynghoriad presennol yn ymwneud a phedwar dosbarth strategol allweddol: y weledigaeth, amcanion allweddol, lefelau tyfiant ar gyfer safleoedd tai a chyflogaeth (6 dewis) a lle dylai tyfiant fynd (6 dewis). Dywedodd James mai dymuniad y Cabinet oedd canolbwyntio'r mwyafrif o'r datblygiadau newydd ar ochr ddwyreiniol y Sir, ond roedd yn rhaid goresgyn materion yn ymwneud a pherygl o lifogydd a phriffyrdd yn y lle cyntaf. Mae Llandudno yn cael ei ystyried hefyd, ond bydd yn rhaid goresgyn rhwystrau yna hefyd am mai Ystadau Mostyn yw'r prif dirfeddiannwr. Mae Is-grwpiau yn archwilio effaith datblygiadau ar wasanaethau megis iechyd / meddygfeydd meddygon teulu, ysgolion, trafnidiaeth ayb ac mae'n debyg mai ardaloedd tir glas ddaw ymlaen am fod ardaloedd tir llwyd yn brin. Mae'n rhaid ymdrin hefyd a'r mater o dirfeddianwyr yn 'eistedd' ar safleoedd sydd eisoes wedi'u clustnodi i gael eu datblygu.

Y cam nesaf yn y broses bydd ymgynghori ar y strategaeth ddewisol, a disgwylir hyn i ddigwydd ym mis Mehefin. Yna bydd angen i'r meini prawf manwl a pholisïau'r Cynllun cael eu hadolygu / drafftio.

Yn dilyn y cyflwyniad, cafwyd sesiwn byr o holi ag ateb yn ymdrin â'r canlynol: siom na chafodd yr SPG o'r CDLl gwreiddiol eu mabwysiadu hyd yn hyn (nid ydynt yn cael eu datblygu rŵan oherwydd y posibilrwydd o newid polisïau); cais am dair wythnos ychwanegol i ymateb (hyblygrwydd yn gyfyngedig am fod yn rhaid drafftio'r cam nesaf - y strategaeth ddewisol - erbyn diwedd Mawrth, ond y cam ymgynghori nesaf yw'r un pwysicaf - gorau po gyntaf i dderbyn ymateb er mwyn canolbwyntio'n well ar gwestiynau ar faterion yn ymwneud a lefelau tyfiant a dosrannu); pa asesiad a wnaed o anghenion am dai i roi cyfarwyddyd i'r Cynllun (mae Asesiad o Anghenion y Farchnad Dai tros fwaol yn bodoli, yn cael ei rannu fesul cymuned, ond fe wnaed nifer o archwiliadau am anghenion tai lleol yn y mannau mwy gwledig a dangoswyd hyn bod rhyw faint o gynnydd yn y galw - fe gydnabyddir felly gall yr asesiadau trefol bod yn anghywir hefyd); cafwyd cwestiwn am

y Drafforddd yng Nglan Conwy (nid o fewn ein hardal); materion yn ymwneud a datblygiadau sy'n agos at y ffin gyda siroedd cyfagos ac effaith hyn ar yr isadeiledd ar ochr arall y ffin (rhaid ystyried materion traws-ffiniol a bydd angen papur cefndir).

Diolchwyd i James am fod yn bresennol a gadawodd y cyfarfod.

Penderfynwyd gohirio unrhyw ymateb i'r ymgynghoriad tan y cyfarfod nesaf er mwyn i'r Aelodau cael ystyried yn llawn y ddau set o chwech o ddewisiadau yn nogfen y strategaeth gryno (y Clerc i ail-anfon copi i Aelodau'r Pwyllgor trwy e-bost).

c) Cofnod 319/18(b) – Is-Ddeddfau Draenio Tir:

Cyflwynodd y Clerc neges e-bost gan y Cynghorydd Barton yn cyflwyno sylwadau a argymhellir parthed yr Ymgynghoriad.

Penderfynwyd anfon ymateb yn cefnogi'r Ymgynghoriad ar yr Is-Ddeddfau Draenio Tir mewn egwyddor, yn amodol bod y pedwar pwynt a godwyd gan y Cynghorydd Barton yn cael eu hystyried.

ch) Cofnod 316/18(a) - Parciau Cymunedol i Gŵn:

Cyflwynodd y Clerc neges e-bost gan Lianne Martin, CBSC ac fe'i derbyniwyd ac a nodwyd

Penderfynwyd disgwyl am fwy o wybodaeth gan Lianne Martin ar y posibilrwydd o unrhyw safle ar gyfer Parciau Cymunedol i Gŵn.

341/18 <u>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):</u>

Penderfynwyd derbyn a nodi'r ohebiaeth ganlynol oddi wrth GBSC:

a) Rheoliadau Traffig Dros Dro

Rhybudd am geisiadau am reoliadau traffig dros dro yn:
(i) Ffordd yr Orsaf, Hen Golwyn – 27/2 – 5/3
(ii) Cyffordd Rhodfa Ellis hyd at y Gyffordd efo Ffordd Llysfaen – 12/2 – 14/2

b) Cydbwyllgor Rheoli Theatr Colwyn:

Rhoddodd y Cynghorydd J. Pearson adroddiad am y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28/1/19. Cafwyd presenoldeb da ym mhob perfformiad o'r Pantomeim. Mae cynulleidfaoedd y ffilmiau yn gyson dda. Mae arddangosfeydd yr Oriel yn denu cynulleidfaoedd a diolchwyd i' Cyngor Tref am y rhodd grant.

Diolchwyd i'r Cynghorydd Pearson am ei adroddiad.

342/18 <u>Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru:</u>

Rhoddodd y Cynghorydd Barton adroddiad ar lafar am y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18/1/19. Rhoddwyd caniatâd i Drafnidiaeth Cymru (yn cymryd lle Trenau Arriva) i roi cyflwyniad i'r cynrychiolwyr er mwyn amlinellu eu dyheadau am y 4/5 mlynedd nesaf. Cyfeiriodd y Cynghorydd Barton at y

camddealltwriaeth am ddyddiad a lleoliad cyfarfod mis Ebrill sydd i'w gynnal ym Mae Colwyn. Roedd camgymeriad ar agenda'r cyfarfod. Mae'r Clerc wedi cadarnhau gyda'r Gymdeithas mai dyddiad y cyfarfod yw dydd Gwener 12fed Ebrill i'w gynnal yng Nghlwb Criced Bae Colwyn.

Diolchwyd i'r Cynghorydd Barton am ei adroddiad.

343/18 <u>Gorymdaith Diwrnod Dewi Sant:</u>

(a) Cyflwynwyd neges e-bost parthed canslo gorymdaith 2019. Fe nodwyd bod Dydd Gŵyl Dewi yn digwydd yn ystod wythnos yr hanner tymor eleni, ac felly nid oedd yr ysgolion yn fodlon / gallu cymryd rhan. Cyflwynodd nifer o'r Aelodau awgrymiadau ar ddulliau eraill i ddathlu'r diwrnod cenedlaethol.

(b) Cyflwynodd y Clerc awgrymiadau a dderbyniwyd gan yr Aelodau i gael eu hystyried:
(i) Dywedodd y Cynghorydd Worth ei fod ef a'r Cynghorydd Richards yn disgwyl am amcan brisiau am faneri a phosteri i'w harddangos yn ffenestri siopau a'r bwriad oedd talu'r costau allan o'r Lwfans Ward.
(ii) Roedd yr Aelodau o'r farn y dylai BID Colwyn trefnu cystadleuaeth am arddangosfeydd ffenestri siopau.
(iii)Awgrymodd y Cynghorydd G. Campbell cynnal cystadleuaeth i ysgolion cynradd i ddylunio baner y gellir ei ddefnyddio mewn gorymdeithiau yn y dyfodol. Oherwydd y prinder amser, fe awgrymwyd y gellid cynnal y gystadleuaeth ar sail Cystadleuaeth Paentio Colwyn yn ei Blodau, gan anfon gwahoddiad i bob ysgol cymryd rhan. Gellid cyflwyno gwobrau i bob grŵp blwyddyn yn yr ysgolion. Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau bod rhyw faint o gyllideb Grantiau Ieuenctid ar gael ar gyfer costau gwobrau neu fel arall, gellir defnyddio Lwfans Ward.
(iv)Awgrymodd y Clerc hefyd bod y Pwyllgor yn gofyn i Dîm IMAGINE Bae Colwyn cydweithio gydag ysgolion lleol blwyddyn nesaf i ddylunio a pharatoi baneri mwy, i'w defnyddio yn yr Orymdaith.

Diolchwyd i'r Aelodau am eu hawgrymiadau.

Penderfynwyd anfon gwybodaeth at bob Ysgol Feithrin / Cynradd am y gystadleuaeth 'Dylunio poster / baner Dydd Gŵyl Dewi' i gael ei farnu yn Neuadd y Dref.

Fe benderfynwyd ymhellach i ofyn i'r Clerc ofyn i swyddog arweiniol Prosiect IMAGINE Bae Colwyn a fyddai'r Prosiect yn barod i ystyried cydweithio gydag ysgolion cynradd lleol i ddylunio a pharatoi baneri (un i bob ysgol) i'w defnyddio yng Ngorymdaith blwyddyn nesaf.

344/18 <u>Chyrbiau Isel:</u>

(a) Cyflwynodd y Clerc neges e-bost gan y Maer a dderbyniwyd ac a nodwyd.

(b) Atgoffwyd yr Aelodau iddynt gytuno i gynnal 'archwiliad' yn eu wardiau, i gofnodi chyrbiau isel oedd yn bodoli ac unrhyw rai oedd ar goll mewn mannau cymunedol allweddol, fel y gellir dechrau ar broses o flaenoriaethu unrhyw welliannau.

345/18 <u>Scope:</u>

Fe nodwyd dyddiadau casglu o dy i dy gan Scope

346/18 <u>Cynnal Cymru:</u>

Fe nodwyd Taflen Newyddion Ionawr 2019.

347/18 <u>Cynllunio</u>:

a Cyflwynodd y Clerc y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd oddi wrth GBS Conwy a welir yn Atodlen A sydd gyda hwn i gael eu hystyried.

Penderfynwyd cyflwyno sylwadau ar y ceisiadau hyn fel y maent yn ymddangos yn yr Atodlen honno.

Ailystyriwyd Cais O/45845 gan yr Aelodau oherwydd y wybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor. Penderfynwyd cysylltu â'r Adran Cynllunio i adael iddynt wybod bod y Pwyllgor rŵan yn gwrthwynebu'r cais ar sail y manylion a welir yn Atodiad 'A' sydd gyda hwn.

b ***Penderfynwyd derbyn a nodi'r Penderfyniadau Cynllunio a wnaed gan GBSC am y cyfnod 14/1/2019 hyd at 27/1/2019.***

c Cais Cynllunio a Dynnwyd yn ôl:

Fe nodwyd bod cais cynllunio O/45789 wedi cael ei dynnu'n ôl.

ch) Ymweliad a Safle:

Cytunodd y Cynghorydd M. Jones i fynychu'r ymweliad a safle ar gyfer Cais O/45766 (Ffordd Sefton) a'r Cynghorydd S. Williams i'r Sw a'r ddau i adrodd yn ôl, i'r Pwyllgor.

348/18 <u>Trwyddedau:</u>

Ni chyflwynwyd unrhyw gais am drwydded.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.00 pm

…… Cadeirydd

MaeMINUTES OF A MEETING OF THE GENERAL PURPOSE AND PLANNING COMMITTEE OF THE BAY OF COLWYN TOWN COUNCIL, HELD AT 6:30PM ON TUESDAY 5TH FEBRUARY 2019, IN THE COMMITTEE ROOM, TOWN HALL, RHIW ROAD, COLWYN BAY

PRESENT: Cllr C Brockley (Vice Chairman) acting as Chair.
Cllrs: B Barton; N Bastow (Dep Mayor); G Campbell; M Jones; C Matthews; J Pearson; M Tasker; S Williams (Mayor); M Worth.

OFFICERS: Mrs T Earley, Town Clerk and Mrs R Dudley, Assistant Clerk.

IN ATTENDANCE: Mr James Harland, Strategic Planning and Communities Manager, CCBC; Cllr Chris Hughes and Cllr Paul Richards.

226/18 Welcome and Apologies for Absence:

The Vice Chairman, C Brockley, took the Chair and apologies for absence were received from the Chairman, Cllr G Baker.

227/18 Public Participation:

In accordance with Standing Orders, members of the public are permitted to speak on any item on the agenda. Town Councillors Chris Hughes and Paul Richards used this public participation session to comment on Planning Application 0/45845 from the minutes of the meeting held on 15th January 2019. The Committee has submitted no objections, but the Councillors informed the committee that further information about the application had since been uploaded to Planning Explorer, expressing concerns about potential flooding and access issues on Groes Road. The Committee agreed to look at the application again, taking into account the new information; see Minute 347/18(a).
The Chair thanked Cllrs Hughes and Richards and they retired from the meeting.

228/18 Declarations of Interest:

Members were reminded that they must declare the existence and nature of any personal and/or prejudicial interests. None were declared.

229/18 Minutes:

Resolved to approve and sign, as a correct record, the minutes of the last meeting, held on 15th December 2019.

230/18 Matters Arising from Previous Minutes:

a) **Min.291/18 (e) – Hesketh Road Bus Shelter**:

The Clerk informed the committee that the quote for a replacement bus shelter had now been submitted to the insurance company and a response is awaited.

b) **Min. 318/18(b) – LDP Consultation and SPG:**

The Chair welcomed James Harland, Strategic Planning and Communities Manager, Conwy CBC, to the meeting to respond to questions from members regarding the proposals in the LDP consultation documents. James confirmed that an extension had been granted for responses from the Town Council to the consultation. He then went on to explain the pressures relating to the timetable for the current review of the LDP, which must reach deposit stage by January 2020, otherwise the Minister may intervene. A call for potential development sites has been made, resulting in 300+ new sites being proposed. These and all existing sites that have not yet come forward for development will be reviewed against agreed criteria.

The current consultation is about four key strategic issues: the vision, key objectives, growth levels for housing and employment sites (6 options) and where this growth should go (6 options). James reported that Cabinet had wanted to concentrate most of the new development in the East of the County, but that there were issues with flood risk and highways that would need to be overcome first. Llandudno is also being considered, but there are hurdles to be overcome there too due to Mostyn Estates being a major landowner. Sub-groups are looking at the impact of development on services such as health/GP surgeries, schools, transport etc and greenfield sites are likely to come forward, as brownfield sites are limited. Issues around landowners 'sitting' on sites currently earmarked for development also need to be addressed.

The next step in the process will be a consultation on the preferred strategy, which is expected to be in June. The detailed criteria and policies for the Plan will then need to be reviewed/drafted.

A brief question and answer session followed the presentation, with questions/comments about: disappointment about the SPGs from the original LDP that haven't yet been adopted (not now being progressed, due to potential for changes in policy); a request for three weeks more to respond (flexibility limited, as next stage – preferred strategy- has to be drafted by the end of March, but it is the next consultation stage that is most important – the sooner the response the better and concentrate on questions about growth levels and distribution issues); what housing needs assessments have been undertaken to inform the plan (there is an overarching Housing Market Needs Assessment, split by community, but several local housing needs surveys have been done in more rural areas and these have shown some increases in demand – it is therefore recognised that the urban assessments may also be inaccurate); a question about Trunk Road issues in Glan Conwy (not within our area); issues relating to development close to the border with neighbouring counties and the impact this has on infrastructure across the border (cross-border issues have to be

considered and a background paper would be required).

James was thanked for attending and then retired from the meeting.

Resolved to defer agreeing any response to the consultation to the next meeting, to allow members to fully consider the two sets of six options in the summary strategy document (Clerk to re-send to all Members of the Committee by e-mail).

c) **Min. 319/18(b) – Land Drainage Byelaws:**

The Clerk submitted an email from Cllr Barton giving recommended comments relating to the Consultation.

Resolved to send a response to support the Land Drainage Byelaws Consultation in principle, subject to the four points raised by Cllr Barton being considered.

d) **Min 316/18(a) – Community Dog Parks:**

The Clerk submitted an email from Lianne Martin, Conwy CBC which was received and noted.

Resolved to await further information from Lianne Martin on any potential locations for Community Dog Parks.

231/18 <u>Conwy CBC</u>:

Resolved to receive and note the following correspondence from CCBC:

a) **Temporary Traffic Regulations:**

Notice of requests for temporary traffic regulations at:
(i) Station Road, Old Colwyn – 27/2 – 5/3.
(ii)Jnct Ellis Avenue to Jnct Llysfaen Road – 12/2 – 14/2.

b) **Theatr Colwyn Joint Management Committee*:***

Cllr J Pearson gave a verbal report on the meeting held on 28/01/19. The Pantomime had been well attended for all performances. Film audiences had been consistently good. The Gallery exhibitions were attracting an audience and the Town Council was thanked for its grant donation.

Cllr Pearson was thanked for his report.

232/18 <u>North & Mid Wales Association of Local Councils</u>:

Cllr Barton gave a verbal report regarding the meeting held on 18/01/19. Transport for Wales (replacing Arriva Trains) had given a presentation to the delegates to outline their aspirations for the next 4/5 years. Cllr Barton also

reported that there had been a misunderstanding about the date and venue for the meeting in April, which the Bay of Colwyn was hosting, due to an error in the agenda for the meeting. The Clerk has confirmed that the date agreed with the Association is Friday 12th April 2019 and the venue is the Colwyn Bay Cricket Club.

Cllr Barton was thanked for his report.

233/18 St David's Day Parade:

(a) An email regarding the cancellation of the parade for 2019 was submitted. It was noted that St David's Day falls in the half term week this year, therefore schools would not be willing/able to participate. Several members had submitted suggestions for alternative ways the national day could still be celebrated.

(b)The Clerk submitted, for consideration, the suggestions received from members:
(i) Cllr Worth reported that he and Cllr Richards were getting quotes for banners and posters to be displayed in shop windows and they intended to meet the costs from their Ward Allowances.
(ii) Members felt that Colwyn BID should organise a competition for shop window displays.
(iii) Cllr G Campbell suggested a competition for primary schools to design a flag which could be used in future parades. Due to the short timeframe, it was suggested that the competition could be run in the same way as the Colwyn in Bloom Painting Competition, with letters sent to each school to invite them to participate. Prizes could be issued for each school year group. The Clerk informed members that there may be some budget remaining from the Youth Grants to cover the cost of prizes, or alternatively ward allowance(s) could be used.
(iv) The Clerk also suggested that the Committee ask the IMAGINE Colwyn Bay Team to work with the local schools next year to design and make large flags for use in the Parade.

Members were thanked for their suggestions.

Resolved that information be sent to all the Infant/Primary Schools regarding the 'design a St David's Day' poster/flag competition, which would be judged in the Town Hall.

Further resolved to request that the Clerk asks the IMAGINE Colwyn Bay project lead officer if the Project could consider working with the local primary schools to design and make flags (one for each school) to be used in the Parade next year.

234/18 Dropped Kerbs:

(a) The Clerk submitted an E-mail from the Mayor which was received and

noted.

(b) Members were reminded that they had agreed to conduct an 'audit' in each of their wards to record any existing dropped kerbs and any that were missing from key community sites, so that a process of prioritising any improvements could begin.

235/18 Scope:

Dates of house to house collections by Scope were noted.

236/18 Cynnal Cymru:

The January 2019 Newsletter was noted.

237/18 Planning:

a) The Clerk submitted, for consideration, the planning applications received from CCBC, as detailed on Schedule 'A' attached.

Resolved to submit observations on these applications, as detailed in that Schedule.

Members also reconsidered 0/45845, due to further information being submitted to the Committee. It was resolved to contact the Planning Department to inform them the Committee now had objections, as detailed in Schedule 'A' attached.

b) **Planning Decisions*:***

Resolved to receive a copy of the Planning Decisions issued by CCBC for the period 14/01/19 – 27/01/2019.

c) **Withdrawn Planning Application:**

It was noted that Planning Application 0/45789 had been withdrawn.

d) **Planning Site Visit**:

Cllr M Jones agreed to attend the site visit for 0/45766 (Sefton Road) and Cllr S Williams for the Zoo and both will report back to the Committee.

348/18 Licensing:

No licensing applications had been submitted.

The meeting closed at 8.00 p.m.

……. Chairman